Enw



DARLLENWCH
Genesis 15: 1-7

*Mae'r stori yma'n sôn am:*
**Credu addewidion Duw**

# Stori 3 Addewidion Duw

Roedd Abram yn drist am nad oedd ganddo blant. Byddai'n hoffi cael bachgen bach ac felly gofynnodd i Dduw roi mab iddo. Dywedodd Duw wrth Abram am fynd allan o'i babell yn y nos ac edrych i fyny i'r awyr a rhifo'r sêr. Ond roedd llawer gormod o sêr i Abram eu cyfrif! Yna addawodd Duw roi mab i Abram. Ac nid dyna'r cyfan!

Yn y dyfodol, byddai cymaint o bobl yn nheulu Abram ag sydd o sêr yn yr awyr. Credodd Abram eiriau Duw. Roedd yn gwybod y byddai ei addewid yn dod yn wir. Rhoddodd Duw enw newydd i Abram. Ei enw newydd oedd Abraham sy'n golygu 'tad i lawer o bobl'. Newidiodd enw Sarai hefyd, i Sara.

**Beth oedd enw newydd Abram?**



**Lliwiwch yr adnod a'r llun a rhoi sêr yn y llun.**

"Ni fethodd yr un gair o'i holl addewid ddaionus."

**1 Brenhinoedd 8: 56**